## Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu a gynigir yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?**

Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a'r Heddlu, yn y drefn honno, yw deddfwriaeth sy'n ymwneud â throseddau casineb a'r gwaith o ymchwilio i droseddau casineb, mae Gweinidogion Cymru o dan rwymedigaeth i gefnogi'r hyn sydd o les i Gymru. Mae'n annhebygol y bydd yr amcanion o greu Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru sy'n fwy cyfartal yn cael eu cyflawni heb gefnogi dioddefwyr troseddau casineb a herio ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn erbyn y rhai â Nodweddion Gwarchodedig ac nad yw'n cydnabod eu gwerth fel pobl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o elfennau gwaith polisi ym maes casineb sy'n ceisio lleihau agweddau cas yng Nghymru, gan sicrhau dealltwriaeth o droseddau casineb, bod gan ddioddefwyr yr hyder i roi gwybod am gamdriniaeth, a bod cymorth priodol yn cael ei roi ar waith i ddioddefwyr.

Dangosodd Ystadegau Troseddau Casineb Cymru a Lloegr a ryddheir yn flynyddol gan Swyddfa Gartref y DU ostyngiad o 2% yn y troseddau casineb a gofnodwyd ledled Cymru yn 2023-24, o'i gymharu â 2022-23. Dyma'r ail ostyngiad blynyddol yn y troseddau casineb a gofnodwyd ers i'r Swyddfa Gartref ddechrau casglu data cymaradwy yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2013. Fodd bynnag, ers 2011-12, mae troseddau casineb a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru wedi mwy na threblu, o 1,809 i 5,929. Mae'n ansicr i ba raddau y mae'r cynnydd a welwyd dros y degawd diwethaf i'w cyfrif i'r gwelliannau yn systemau cofnodi'r heddlu, neu'n cynrychioli cynnydd gwirioneddol mewn troseddau casineb, ac mae'r un peth yn wir o ran y gostyngiadau a welwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- Ariannu ein hymgyrch yn erbyn troseddau casineb, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Cowshed ar hyn o bryd.
- Ariannu Canolfan Cymorth Casineb Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru.
- Archwilio llwybrau i leihau nifer y troseddau casineb a gyflawnir yng Nghymru, gan gynnwys datblygu peilot sy'n gweithio gyda'r sawl sy'n eu cyflawni.
- Gweithio gydag Ofcom Cymru, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ac eraill i geisio mynd i'r afael â chasineb a chamwybodaeth ar-lein yng Nghymru.

- Gweithio gyda gwahanol sefydliadau yng Nghymru i gynyddu ymwybyddiaeth o gasineb a chamwybodaeth ar-lein, gan gynnwys datblygu canllawiau a hyfforddiant.
- Cynnull Bwrdd Casineb a Thensiwn Cymunedol Cymru.
- Monitro deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth y DU, a dulliau'r proffesiwn plismona o fynd i'r afael â chasineb, er mwyn asesu'r effeithiau yng Nghymru a chodi llais dros welliannau.

Mae'r corff hwn o waith yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir wrth droseddau casineb, annog a grymuso pobl i roi gwybod amdanynt, darparu gwybodaeth hygyrch ac amlieithog, cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth ac eiriolaeth Canolfan Cymorth Casineb Cymru, tynnu sylw at Ganolfan Cymorth Casineb Cymru fel ffordd amgen o roi gwybod am droseddau casineb i'r rhai nad ydynt am fynd at yr heddlu, boed oherwydd diffyg hyder neu brofiad negyddol blaenorol gyda'r system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn cefnogi ymdrechion i leihau troseddu, cynyddu ymwybyddiaeth o sut i adnabod a delio â chamwybodaeth, ac annog rheoleiddio effeithiol ar ddeunydd ar-lein.

Rydym yn ceisio ymgorffori'r pum ffordd o weithio ym mhob rhan o'r corff gwaith. Mae cydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid allweddol – yr heddlu, grwpiau cymorth dioddefwyr, y dioddefwyr eu hunain, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, adrannau'r Llywodraeth ac eraill – yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol. Mae'r holl waith hwn yn cadw ffocws ar atal casineb ac adferiad effeithiol dioddefwyr ar ôl camdriniaeth.

Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru, ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru a Bwrdd Casineb a Thensiwn Cymunedol Cymru yn cynrychioli dulliau gweithredu hirdymor sy'n cydnabod gwreiddiau dwfn y problemau cymdeithasol yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae ein gwaith ar gamau hyfforddi ac ymgysylltu o bob math ledled Cymru hefyd yn cefnogi datblygiad hirdymor.

Gan nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb am blismona na rheoleiddio deunydd ar-lein, rydym wedi gorfod meddwl yn ofalus am sut i integreiddio ein gwaith polisi o fewn y strwythur presennol. Mae gan Ganolfan Cymorth Casineb Cymru gytundebau gyda phedwar heddlu Cymru i sicrhau bod eu gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu hyrwyddo. Mae'r heddlu yn helpu i lywio a hyrwyddo ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, sydd ei hun wedi'i chynllunio ar sail proffiliau achosion go iawn a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae ein gwaith ar gasineb ar-lein yn dibynnu'n helaeth ar ymgysylltiad ag Ofcom mewn perthynas â gweithredu Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.

## Adran 8. Casgliad

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae cydweithredu ac ymgysylltu yn allweddol i ddatblygu a gwella ein gwaith polisi mewn perthynas â chasineb yn barhaus. Rydym yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i bawb sy'n dioddef troseddau casineb yng Nghymru, drwy ein cyllid i Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru wedi datblygu Fforwm Eiriolaeth Profiad Bywyd, sef unigolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y gorffennol, er mwyn helpu i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth yn barhaus. Mae'r Ganolfan wedi cyflwyno gwasanaeth cymorth penodol i blant a phobl ifanc, a gafodd ei seilio ar ddau ddarn o ymchwil a holodd blant a phobl ifanc a oedd wedi profi troseddau casineb am eu barn a'u profiadau o ran bylchau yn y ddarpariaeth.

Wrth inni fireinio ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Fforwm Eiriolaeth Profiad Bywyd ac amrywiol sefydliadau cymorth cymunedol pan fydd deunydd newydd yn cael ei ddatblygu.

Mae Bwrdd Casineb a Thensiwn Cymunedol Cymru yn cynnwys ystod o grwpiau cymorth cymunedol sy'n cynrychioli dioddefwyr posibl, gan gwmpasu'r pum maes lle mae amddiffyniad i bobl rhag casineb.

Bydd ein gwaith mewn perthynas â'r unigolion sy'n cyflawni troseddau yn gwarchod hawliau'r dioddefwyr fel elfen hollbwysig – ni fydd unrhyw ymyrraeth a gefnogwn yn cymryd rheolaeth oddi wrth y dioddefwyr.

Mae ein gwaith o ran camwybodaeth a chasineb ar-lein yn tynnu ar fewnwelediad gan grwpiau'r trydydd sector sy'n gweithio'n agos gyda'r cymunedau yr effeithir arnynt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r grwpiau hyn er mwyn gallu canolbwyntio ar greu'r canllawiau neu'r adnoddau sydd eu hangen ar gymunedau yr effeithir arnynt, yn ogystal â chodi eu prif bryderon gydag asiantaethau cyfrifol eraill.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Nod ein gwaith polisi o ran troseddau casineb yw mynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru drwy gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohonynt, ac annog mwy a mwy o bobl i roi gwybod amdanynt. Datblygwyd y strategaeth hon yn ysbryd nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus. Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i'n dulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau Cymru decach.

Drwy ein hymgysylltiad parhaus â phobl sydd â phrofiad o droseddau casineb, cawn ein hatgoffa o'r effaith niweidiol a pharhaol y mae troseddau casineb yn ei chael ar ddioddefwyr, yn ogystal â'r effaith ar eu ffrindiau a'u teuluoedd, a'r rhai sy'n dyst iddynt. Mae troseddau casineb yn droseddau difrifol, sy'n cael effaith gymdeithasol ehangach, gan greu ofn ac, o bosibl, wanhau cysylltiadau cymunedol a gwaethygu ynysu cymdeithasol. Mae yna hefyd gost ariannol i droseddau casineb, boed i drwsio difrod i eiddo neu graffiti, neu gost uwch y plismona sydd ei angen wrth ymateb i'r troseddu.

Yn y pen draw, bydd mynd i'r afael â throseddau casineb, boed drwy negeseuon ataliol neu annog dioddefwyr i roi gwybod am y peth, yn cael effaith gadarnhaol ar bob cymuned yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys manteision fel cymunedau mwy cydlynus ac empathig, gwell lefelau lles, a llai o straen ar adnoddau cyhoeddus.

Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn darparu cymorth ac eiriolaeth wedi'i deilwra i ddioddefwyr a'u teuluoedd, er mwyn mynd i'r afael â llawer o effeithiau negyddol troseddau casineb a helpu pobl i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.

Dim ond os caiff ein gwaith ei gamddehongli, boed yn fwriadol neu fel arall, y bydd effaith negyddol i'n gwaith. Mae yna naratif ffug ar led bod troseddau casineb yn gorff penodol o droseddau nad ydynt yn ddifrifol eu natur, ac sy'n ymwneud i raddau helaeth â brifo teimladau neu dramgwyddo – nid yw hyn yn wir. Troseddau arferol yw troseddau casineb, sy'n cael eu hysgogi gan fwriad cas yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig tybiedig y dioddefwr. Byddwn yn ystyried yn ofalus sut rydym yn cyfathrebu ynghylch ein gwaith er mwyn ceisio atal y canfyddiadau hyn rhag parhau.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Un o fwriadau ein gwaith polisi ar gasineb yw mynd i'r afael ag achosion ac effaith troseddau casineb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, gan helpu cymunedau yng Nghymru i deimlo'n fwy diogel. Mae troseddau casineb yn cael effaith negyddol bellgyrhaeddol ar gymunedau ledled Cymru, o'r dioddefwyr i deuluoedd a ffrindiau'r dioddefwyr, i'r tystion, i'r cymunedau, ac i'r unigolion eu hunain sy'n cyflawni'r troseddau a'u teuluoedd pan gânt eu cosbi. Mae'r gwaith i atal a lliniaru effaith troseddau casineb yn cyfrannu'n gryf at rai o nodau llesiant Cymru, sef Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae'r gofyniad i fonitro a gwerthuso ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru a Chanolfan Cymorth Casineb Cymru wedi'i gynnwys ym manylebau'r contractau. Fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, bydd Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn darparu ystadegau ar ystod o feysydd, gan gynnwys atgyfeiriadau a nifer yr ymweliadau â'r wefan, a fydd yn helpu i fesur cyrhaeddiad yr adnoddau.

Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn cael ei mesur drwy gyfres o ddangosyddion a phroses fonitro chwarterol, a mesurir boddhad pobl â'i gwaith drwy Fforwm Eiriolaeth Profiad Bywyd.

Bydd unrhyw brosiectau sy'n gweithio gydag unigolion sy'n cyflawni troseddau yn cael eu gwerthuso'n ofalus fel ymyriadau peilot.

Byddwn hefyd yn ystyried y cyfleoedd sydd ar gael i werthuso ymyriadau i fynd i'r afael â chasineb a chamwybodaeth ar-lein, er bod hyn yn anodd oherwydd polisïau cwmnïau cyfryngau cymdeithasol eu hunain a'r cyfyngiadau ar y data y gallwn ei gyrchu.

## A.

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

1. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o’r fath.
- Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae ein gwaith polisi ar gasineb yn cefnogi cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn benodol dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon.

Mae yna risg y gallai cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig fel dioddefwyr troseddau casineb waethygu stereoteipiau. Er enghraifft, drwy gynrychioli person anabl fel dioddefwr, gellid ystyried ein bod yn hyrwyddo'r stereoteip o bobl anabl fel rhai sy'n agored i niwed. Rydym wedi bod yn ymwybodol o'r risg hon wrth ddatblygu ein deunyddiau ymgyrchu. Rydym wedi ceisio dangos y gall y weithred o roi gwybod am droseddau casineb fod yn brofiad sy'n grymuso dioddefwyr.

Yn yr enghraifft o drosedd gasineb yn erbyn person anabl, mae'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn cael ei chwarae gan actor o gymuned ethnig leiafrifol, ac rydym yn ymwybodol y gellid ystyried bod hyn yn hyrwyddo stereoteipiau negyddol. Mae'r ymgyrch yn dangos y gall unrhyw un ddioddef troseddau casineb, y gall unrhyw un eu cyflawni, ac y gall unrhyw un fod yn dyst iddynt. Mae troseddau casineb yn broblem gymdeithasol niweidiol, ac mae gan bob un ohonom ran yn y gwaith o'i dileu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn neges yr ymgyrch – 'Safwn yn erbyn troseddau casineb'. Rydym wedi bod yn hynod ofalus i sicrhau bod y senarios yn cael eu portreadu mewn ffordd mor ddilys â phosibl (heb ei gwneud yn bosibl adnabod y dioddefwyr), bod cynrychiolaeth amrywiol ar draws y darn, a'n bod yn osgoi stereoteipio dioddefwyr ac unigolion sy'n cyflawni troseddau.

Rydym yn ymwybodol y gallai unrhyw waith i fynd i'r afael â throseddau casineb gael ei ddehongli fel ymosodiad ar ryddid mynegiant. Mae ein neges yn glir na ddylai unrhyw un orfod byw mewn ofn rhag troseddau casineb fel y'u diffinnir yn neddfwriaeth y DU. Nid yw'r neges hon yn niweidiol i hawliau pobl eraill; mae'n ymwneud â sicrhau bod dioddefwyr troseddau fel trais a chamdriniaeth yn rhoi gwybod am eu profiadau ac yn cael cefnogaeth. Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl o ran deddfu ynghylch iaith casineb na hawl i siarad, ond rydym mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac eraill i geisio sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu parch priodol at ryddid mynegiant.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Mae ein gwaith o ran troseddau casineb yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum | Nid yw oedran wedi'i gynnwys yn neddfwriaeth | Er nad yw oedran yn cael ei gynnwys yn uniongyrchol yn neddfwriaeth troseddau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | maes o droseddau casineb a gwmpesir yn neddfwriaeth y DU. | troseddau casineb y DU. | casineb, bydd pobl hŷn yn rhannu nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y deddfau hyn – person hŷn hoyw, person hŷn Iddewig ac ati. Byddant felly yn elwa o nodau ein gwaith polisi ar gasineb.<br><br>Bydd ein neges gyffredinol hefyd yn cyd-fynd ag amcan i hyrwyddo empathi ac annog pobl i dderbyn gwahaniaethau o fewn cymunedau. Mae'r neges hon yn cynnwys pawb, beth bynnag eu hoedran neu eu cefndir. |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy'n analluogi pobl | Un o fwriadau ein gwaith polisi ar gasineb yw annog a chynyddu hyder pobl anabl i roi gwybod am droseddau casineb i'r heddlu neu i Ganolfan Cymorth Casineb Cymru.<br><br>Rydym hefyd eisiau helpu pobl anabl i ddeall troseddau | Ystadegau Troseddau Casineb Cymru a Lloegr | Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i All Wales People First i gynnal cyfres o weithdai ymgysylltu ynghylch troseddau casineb yn 2020 a 2021 gyda'i rwydweithiau lleol o oedolion ag anableddau dysgu ledled Cymru. Roedd hyn yn help i greu darlun o'u profiadau a'u dealltwriaeth o |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu hamhariadau, ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i’r fewnrwyd a chwiliwch am ‘y model cymdeithasol’.

| | | | |
|---|---|---|---|
| sydd â gwahanol fathau o amhariadau) | casineb yn well a'r cysyniad cysylltiedig o 'droseddau cyfeillio'.<br><br>Bydd angen i unrhyw waith ystyried gofynion hygyrchedd. | | droseddau casineb, yn ogystal â'r hyn a oedd yn eu rhwystro rhag rhoi gwybod amdanynt.<br><br>Datblygwyd ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru gyda chymorth dau grŵp ffocws o bobl anabl, gan gynnwys un grŵp o bobl ag anableddau dysgu.<br><br>Rhannwyd ein deunyddiau hefyd gyda'r Fforwm Anabledd a grewyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae deunyddiau'r ymgyrch yn cynnwys y rhai sydd â'r cefndir hwn.<br><br>Mae deunyddiau'r ymgyrch wedi'u cynhyrchu mewn fformatiau hygyrch; mae yna fersiynau ag is-deitlau ac yn Iaith Arwyddion Prydain.<br><br>Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn darparu gwasanaeth cymorth ac eiriolaeth cwbl hygyrch. |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Un o fwriadau'r ymgyrch yw annog a chynyddu hyder pobl drawsryweddol i roi gwybod am droseddau casineb i'r heddlu neu i | Ystadegau Troseddau Casineb Cymru a Lloegr | Cyflwynwyd adnoddau creadigol ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru i grŵp ffocws o bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol a oedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. | | yn cynnwys pobl drawsryweddol. Roedd yr adborth yn help i lywio datblygiad pellach yr ymgyrch.<br><br>Mae deunyddiau'r ymgyrch yn cynnwys y rhai sydd â'r cefndir hwn. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Mae ein gwaith polisi ar gasineb yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum maes o droseddau casineb a gwmpesir yn neddfwriaeth y DU. | Nid yw beichiogrwydd a mamolaeth wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth troseddau casineb y DU. | Er nad yw beichiogrwydd a mamolaeth yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth hon, bydd yna fenywod beichiog a menywod ar absenoldeb mamolaeth sydd â nodweddion gwarchodedig eraill sydd wedi’u rhestru yn neddfwriaeth troseddau casineb, ac a fydd felly yn elwa o'r ymgyrch.<br><br>Bydd yr ymgyrch yn hyrwyddo empathi tuag at bobl eraill. |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Un o fwriadau ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru yw annog a chynyddu hyder pobl ethnig leiafrifol i roi gwybod am droseddau casineb i'r heddlu neu i Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. | Ystadegau Troseddau Casineb Cymru a Lloegr | Cyflwynwyd adnoddau creadigol ymgyrch Mae Casineb yn Brifo i ddau grŵp ffocws o bobl ddu ac ethnig leiafrifol, un grŵp o fenywod ac un o ddynion. Roedd y rhain yn cynnwys pobl o gefndiroedd Du Prydeinig, Affricanaidd, Caribïaidd, Indiaidd, Asiaidd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Prydeinig a chefndiroedd ethnig cymysg.<br><br>Roedd yr adborth a ddarparwyd yn help i ddatblygu'r adnoddau creadigol ymhellach.<br><br>Mae deunyddiau'r ymgyrch yn cynnwys y rhai sydd â'r cefndir hwn.<br><br>Cynhaliwyd grŵp ffocws arall gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.<br><br>Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn darparu gwasanaeth cymorth ac eiriolaeth cwbl hygyrch. |
| Crefydd, cred a dim cred | Un o fwriadau ein gwaith polisi ar gasineb yw annog a chynyddu hyder pobl a chanddynt ffydd i roi gwybod am droseddau casineb i'r heddlu neu i Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. | Ystadegau Troseddau Casineb Cymru a Lloegr | Cyflwynwyd adnoddau creadigol ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru i grŵp ffocws o bobl o wahanol grefyddau. Mae deunyddiau'r ymgyrch yn cynnwys y rhai sydd â'r cefndir hwn. |
| Rhyw / Rhywedd | Mae ein gwaith o ran casineb yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum maes o droseddau casineb a gwmpesir | Nid yw rhyw wedi'i gynnwys yn neddfwriaeth troseddau casineb y DU. | Er nad yw rhyw / misogynedd / agwedd negyddol tuag at ddynion yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth hon, bydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn neddfwriaeth y DU. | | yna lawer o fenywod / dynion sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y deddfau hyn - menywod Mwslimaidd ac ati. Rydym wedi adlewyrchu'r croestoriadedd hwn yn hysbysebion yr ymgyrch.<br><br>Cyflwynwyd adnoddau creadigol ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru i grwpiau ffocws o ryw cymysg, gan gynnwys Dinasyddion yr UE, menywod anabl, menywod LHDT+, menywod hŷn, menywod iau, ond hefyd i un a oedd yn cynnwys menywod du ac ethnig leiafrifol yn unig.<br><br>Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn darparu gwasanaeth cymorth ac eiriolaeth cwbl hygyrch. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Un o fwriadau'r ymgyrch yw annog a chynyddu hyder pobl LHDT i roi gwybod am droseddau casineb i'r heddlu neu i Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. | Ystadegau Troseddau Casineb Cymru a Lloegr | Cyflwynwyd adnoddau creadigol ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru i grŵp ffocws o bobl LHDT, a defnyddiwyd eu barn i lywio'r adnoddau eraill.<br><br>Mae deunyddiau'r ymgyrch yn cynnwys y rhai sydd â'r cefndir hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Mae ein gwaith o ran troseddau casineb yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum maes o droseddau casineb a gwmpesir yn neddfwriaeth y DU. | Nid yw priodas a phartneriaeth sifil wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth troseddau casineb y DU. | Er nad yw statws priodasol yn cael ei gynnwys yn uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth hon, bydd yna bobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil y mae'r pum nodwedd a warchodir gan y deddfau hyn yn berthnasol iddynt.<br><br>Ers sefydlu priodasau/partneriaethau sifil cyfartal, mae'r nodwedd hon hefyd yn wir am lawer mwy o unigolion LHDTC+. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae ein gwaith o ran troseddau casineb yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum maes o droseddau casineb a gwmpesir yn neddfwriaeth y DU. | Nid yw plant a phobl ifanc (oedran) wedi'u cynnwys ym meysydd troseddau casineb deddfwriaeth y DU. | Er nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth hon, gall yr unigolion hyn rannu nodwedd warchodedig sy'n cael ei chwmpasu gan y deddfau hyn. Byddant felly yn elwa o nodau'r ymgyrch.<br><br>Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn darparu gwasanaeth cymorth ac eiriolaeth wedi'i deilwra i blant a phobl ifanc.<br><br>Dangosir plentyn yn adnodd creadigol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru ar gyfer y drosedd gasineb sy'n ymwneud â chrefydd. Y nod yw cyfleu effaith niweidiol troseddau casineb ar fywydau pobl a'u plant. |
| Aelwydydd incwm isel | Mae ein gwaith o ran troseddau casineb yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum maes o droseddau casineb a gwmpesir yn neddfwriaeth y DU. | Nid yw pobl o aelwydydd incwm isel wedi'u cynnwys ym meysydd troseddau casineb deddfwriaeth y DU. | Er nad yw pobl o aelwydydd incwm isel yn gategori sy'n cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth hon, bydd yna unigolion o'r aelwydydd hyn sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y deddfau hyn. Byddant felly yn elwa o nodau ein gwaith.<br><br>Mae troseddau casineb yn effeithio'n anghymesur ar unigolion a chymunedau sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol - fel lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, unigolion LHDTC+, a lleiafrifoedd crefyddol - gan waethygu eu profiad o gael eu hallgáu a chyfyngu ymhellach ar eu mynediad at wasanaethau a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chyflogaeth ac ar eu diogelwch. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi? (*Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig*).

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| **Erthyglau: 2 (hawl i fywyd); 3 (rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol); 5 (yr hawl i ryddid a diogelwch); 8 (parch at eich bywyd preifat a theuluol); 9 (rhyddid meddwl, cred a chrefydd); 10 (rhyddid mynegiant); 14 (amddiffyn rhag gwahaniaethu)** | Bydd y gwaith i atal troseddau casineb yn cael effaith gadarnhaol wrth gefnogi'r hawliau a nodwyd yn erthyglau 2, 3, 5, 8, 9 ac 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br><br>Mae ein gwaith polisi ar droseddau casineb hefyd yn helpu o safbwynt gweithredu a chydymffurfio â Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a'r Cyfamodau a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan y DU fel Gwladwriaeth sydd wedi ymrwymo iddynt, sy'n cynnwys | Yn Sylwadau Terfynol archwiliad y Cenhedloedd Unedig o sefyllfa'r DU yn 2015, o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, galwyd am gyflwyno ymgyrchoedd newydd i godi ymwybyddiaeth, gyda'r nod o hyrwyddo parch at hawliau dynol a goddefgarwch yn wyneb amrywiaeth.<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd â nodau'r ymgyrch.<br><br>Yn Sylwadau Terfynol archwiliad y Cenhedloedd Unedig o sefyllfa'r DU yn 2016, o dan y Confensiwn ar | Nid ydym wedi nodi unrhyw effaith negyddol ar hawliau dynol pobl yng Nghymru.<br><br>Fel y soniwyd uchod, mae angen inni gadw llygad ar sut rydym yn cydbwyso hawliau gwahanol garfanau mewn cymdeithas – yn enwedig mewn perthynas ag erthygl 10. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a'r Confensiwn.<br><br>Mae ein gwaith hefyd yn cefnogi erthygl 10 drwy sicrhau bod rhyddid i lefaru yn cael ei gydbwyso ag amddiffyniadau rhag iaith casineb a rhag ysgogi casineb. | Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil, galwyd am fabwysiadu mesurau pendant, gan ymgynghori â grwpiau yr effeithir arnynt, i gynyddu'r nifer sy'n rhoi gwybod am droseddau casineb hiliol.<br><br>Rhoddodd Confensiwn Fframwaith Cyngor Ewrop ar gyfer Amddiffyn Lleiafrifoedd Cenedlaethol argymhellion i'r DU, fel Gwladwriaeth sydd wedi ymrwymo, yn dilyn ei ymweliad yn 2016. Roeddent yn cynnwys galwad i frwydro yn erbyn yr hinsawdd o ragfarnau rhyng-ethnig a iaith casineb drwy gynyddu ymdrechion a mentrau i hyrwyddo goddefgarwch a deialog ryngddiwylliannol.<br><br>Mae ein gwaith yn cefnogi'r argymhelliad hwn. | |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU, ynghyd â Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[2] a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020[3]

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a'r Cytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig[4], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi y dylid rhoi sylw iddynt:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?
- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir ei bod yn briodol eu rheoli?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effaith eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn un gadarnhaol neu negyddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ddileu effeithiau negyddol posibl. Nodwch y rheswm dros eich ateb, gan gynnwys lle y ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd lle nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;

---

[2] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[3] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

[4] E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd;

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarentir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac sy'n gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

## B. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Rhaid anfon **pob** Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol, a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant, dylech droi at *Y Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant* neu gysylltu â’r Gangen Plant *CRIA@llyw.cymru*

1. **Amcanion polisi**
Bydd ein hamcanion polisi yn canolbwyntio'n bennaf ar y pum maes a gwmpesir o dan ddeddfwriaeth troseddau casineb. Er nad yw plant a phobl ifanc (oedran) yn cael eu cynnwys yn y deddfau hyn, bydd yna blant sydd ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu – plant anabl, plant Mwslimaidd ac ati. Efallai y bydd gan y plant hefyd aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth troseddau casineb.

   Bydd plant yn dod ar draws iaith casineb, safbwyntiau anghytbwys, 'newyddion ffug' a chamwybodaeth neu dwyllwybodaeth ar-lein yn aml, yn enwedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Heb eu herio, gallai'r safbwyntiau hyn ystumio barn plant, a chynyddu gelyniaeth tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig, neu beri iddynt fethu â dangos parch at eu cyd-ddyn.

2. **Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**
Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru Cymorth i Ddioddefwyr i ymgymryd â gwaith ymchwil i'r cymorth a ddarperid i blant a phobl ifanc a oedd yn profi troseddau casineb. Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddwyd adroddiad 'Plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yng Nghymru - Darpariaeth gyfredol o wasanaethau', gan nodi nifer o fylchau yn y ddarpariaeth ledled Cymru.  Ym mis Medi 2021 cyhoeddwyd ail adroddiad a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, '"Mae'n torri calon" - Sgyrsiau â phlant a phobl ifanc y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt yng Nghymru', gan Cymorth i Ddioddefwyr, a gofnododd sgyrsiau gyda phlant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan droseddau casineb yng Nghymru.

   Roedd y sgyrsiau hyn gyda phlant a phobl ifanc yn tynnu sylw at fylchau yn yr ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac o'r cymorth wedi'i dargedu a oedd ar gael, ynghyd â gofyniad clir am wasanaeth a oedd yn fwy cydnaws ag anghenion plant a phobl ifanc. Yn seiliedig ar y sgyrsiau hyn, argymhellodd yr ail adroddiad wasanaeth troseddau casineb penodol i blant a phobl ifanc, naill ai fel rhan o wasanaeth a oedd eisoes yn bodoli neu wasanaeth pwrpasol i'r plant a'r bobl ifanc yr oedd troseddau casineb wedi effeithio arnynt.

   Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn drwy ddarparu cymorth penodol wedi'i deilwra, codi

ymwybyddiaeth, ac ymgysylltu â phobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

Drwy ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, tynnwyd sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth o beth yw troseddau casineb, sut i roi gwybod amdanynt, a ble i ddod o hyd i gefnogaeth. Nod ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru yw mynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gweld ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, ac sy'n penderfynu cysylltu â Cymorth i Ddioddefwyr o ganlyniad, yn cael cynnig cymorth ac eiriolaeth wedi'u teilwra, sy'n hawdd cael gafael arnynt, yn rhad ac am ddim.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn gwella (X)** | **Yn herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 - peidio â gwahaniaethu | X | | Mae ein gwaith polisi ar gasineb yn helpu i herio gwahaniaethu ar sail hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael eu trin yn gyfartal. |
| Erthygl 3 – budd pennaf y plentyn | X | | Mae ein gwaith yn helpu i amddiffyn plant rhag niwed a chefnogi eu hadferiad lle maent wedi profi camdriniaeth. Mae hyn yn blaenoriaethu diogelwch a lles plant. |
| Erthygl 6 – yr hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu | X | | Gall digwyddiadau sy'n deillio o gasineb effeithio'n ddifrifol ar iechyd meddwl, addysg a datblygiad plentyn. Mae ein gwaith i herio casineb yn helpu i liniaru'r niwed hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12 – yr hawl i gael gwrandawiad | X | | Mae ein gwaith ymchwil gyda phobl ifanc a'r gwasanaeth cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi deillio o hynny wedi sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwrandawiad wrth inni ddatblygu polisi a chynllunio gwasanaethau. |
| Erthygl 14 – Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i ymarfer eu crefydd ac Erthygl 30 – Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhan fwyaf o bobl y wlad yn gwneud hynny ai peidio. | x | | Mae'n debygol y bydd bygythiad troseddau casineb yn meithrin amgylchedd lle nad yw plant a phobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd neu ymarfer eu crefydd.<br><br>Un o nodau ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru yw meithrin hinsawdd o empathi a dealltwriaeth, drwy ddarlunio effaith niweidiol troseddau casineb ar unigolion, er mwyn i bobl ystyried effaith eu gweithredoedd cas. Mae hysbyseb yr ymgyrch yn ail-greu sefyllfaoedd ar sail astudiaethau achos go iawn o droseddau casineb, ac yn cynnwys y dedfrydau a roddwyd i'r rhai a gyflawnodd y troseddau er mwyn gwneud i unigolion sydd mewn perygl o gyflawni trosedd feddwl eto. |
| Erthygl 19 – amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod | x | | Prif bwrpas ein gwaith yw mynd i'r afael â chasineb yng Nghymru, a allai gynnwys trais a chamdriniaeth. Os nad y plant eu hunain yw'r dioddefwyr, efallai eu bod yn byw mewn aelwydydd lle mae aelodau o'r teulu yn dioddef neu efallai yn cyflawni troseddau casineb. |

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Mae troseddau casineb yn cynnwys casineb a gyflawnir ar sail 'hil' fel nodwedd warchodedig, sy'n cynnwys hunaniaeth genedlaethol. Gallai Dinasyddion yr UE ddioddef troseddau casineb, felly, fel y'u diffinnir yng nghyfraith y DU.

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd.*

**4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog**

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

  - *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gymeradwyo gan eich Dirprwy Gyfarwyddwr.*

  - *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu hintegreiddio yn eich cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.*

**5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

  - *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

  - *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwe adrannol i'w cyhoeddi.*

  - *Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch post CRIA@llyw.cymru hefyd.*

*I gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth yn y broses hon, ewch i'r dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

**6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'i gwasanaeth cymorth i blant a phobl ifanc drwy ei rhaglen hyfforddi ac ymgysylltu mewn lleoliadau addysgol. Rydym yn darparu manylion i blant am ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru a Chanolfan Cymorth Casineb Cymru drwy dudalennau Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb.

*Os yw eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant i gael rhagor o gyngor.*

**7. Monitro ac Adolygu**

Mae prosesau monitro a gwerthuso yn rhan annatod o gytundebau ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru a Chanolfan Cymorth Casineb Cymru. Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn monitro ei gwasanaeth i blant a phobl ifanc yn chwarterol, gan gynnwys data ystadegol fel lefelau boddhad, ac astudiaethau achos unigol sy'n rhoi adborth ar yr hyn a weithiodd yn dda.